



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Hafod - gofal byrdymor

Yr Wyddgrug

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/02/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Hafod - gofal byrdymor

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Cyngor Sir y Fflint
Lleoedd cofrestredig	3
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	23 Mehefin 2022
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Crynodeb

Mae Hafod yn darparu gwasanaeth gofal byrdymor, gan gynnig gofal seibiant i bobl a'u gofalwyr. Mae'r bobl yn edrych ymlaen at eu hymweliadau, a gall eu perthnasau fod yn sicr y byddant yn cael eu cefnogi'n dda. Gall y bobl gynnal eu trefn arferol yn ystod eu harhosiad. Gallant ddisgwyl amgylchedd sy'n gyfeillgar a chroesawgar. Mae'r staff cymorth yn paratoi ar gyfer ymweliad pob unigolyn, i sicrhau bod croeso cynnes yn cael ei roi iddynt.

Mae'r adeilad yn gyfforddus ac yn gartrefol. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau y caiff iechyd a diogelwch yr adeilad ei gynnal. Cafodd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ei roi iddynt am hyn yn ystod ein harolygiad diwethaf, a gwelsom eu bod bellach wedi mynd i'r afael â hyn.

Mae'r tîm rheoli yn ymweld â nhw yn rheolaidd er mwyn siarad â'r bobl a'r staff cymorth, ac i adolygu'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis. Roedd hwn yn faes i'w wella yn yr arolygiad diwethaf, sydd wedi cael ei gyflawni. Mae'r staff cymorth yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y staff cymorth yn cael eu goruchwyllo'n ffurfiol mor aml ag sy'n unol â'r rheoliadau. Gwelsom fylchau hefyd yn yr hyfforddiant mae'r staff cymorth yn ei gael. Byddwn yn ystyried hyn yn yr arolygiad nesaf.

Llesiant

Mae'r staff cymorth yn sicrhau y caiff y bobl wneud dewisiadau am beth yr hoffent ei wneud yn ystod eu harhosiad yn Hafod. Gallant barhau i gymryd rhan yn eu gweithgareddau arferol yn y gymuned leol os dymunant wneud hynny. Mae rhai o'r bobl yn trin eu harhosiad fel gwyliau oddi wrth eu bywydau bob dydd ac yn hoff o wneud pethau yn wahanol yn ystod eu cyfnod i fwrdd. Dywedodd y bobl a'u teuluoedd wrthym fod y gwasanaeth yn darparu seibiant, nid y unig i'r gofalwyr, ond i'r bobl hefyd. Dywedodd y perthnasau wrthym fod eu hanwyliaid yn edrych ymlaen at fynd i aros yno. Dywedodd un person mai'r peth gorau am y gwasanaeth yw "*it's a break*", a dywedodd perthynas wrthym fod eu hanwylid yn ystyried ei hymweliad yn wyliau. Dywedodd y staff cymorth wrthym fod y bobl sy'n aros yn y gwasanaeth yn cael eu hystyried fel "*guests*".

Mae'r bobl yn cynllunio eu dyddiau ar y cyd â'r staff cymorth. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom y bobl yn gwneud penderfyniadau am sut yr hoffent dreulio eu diwrnod. Gwnaethant ddweud wrthym fod rhai o'r bobl yn edrych ymlaen at fynd i ddisgo lleol, a'u bod yn cael cynllunio teithiau allan fel mynd i fowlio, i siopa, neu i'r sinema. Mae'r bobl yn meithrin cyfeillgarwch yn y gwasanaeth, ac mae rhai ohonynt yn mwynhau cymdeithasu a mynd ar deithiau allan gyda'i gilydd. Gall y bobl ddewis beth yr hoffent ei fwyta, ac maent yn cynllunio eu bwydlen am y dydd gyda'r staff cymorth. Mae'r rheolwr yn bwriadu cyflwyno rhai newidiadau er mwyn sicrhau y caiff opsiynau iach eu cynnig yn rhagweithiol i'r bobl.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel pan fyddant yn ymweld â'r gwasanaeth. Fodd bynnag, gwelsom fod bylchau yn nyddiadau adnewyddu'r hyfforddiant diogelu. Mae hyn yn golygu bod risg nad yw gwybodaeth y staff am y gweithdrefnau diogelu presennol yn gyfredol. Gwnaethom nodi hefyd nad yw'r staff cymorth yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd. Bydd y materion hyn yn cael eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg. Gall rhai aelodau o'r staff siarad Cymraeg, ac mae'n bosibl i'r bobl sy'n cael gwasanaeth i gael aelodau Cymraeg o'r staff cymorth weithiau. Caiff y staff cymorth fynediad at gyrsiau iaith Cymraeg yn ogystal â grŵp sgwrsio. Mae'r rheolwr hefyd yn gobeithio darparu hyfforddiant iaith Arwyddion Prydeinig i un aelod o'r staff yn y dyfodol.

Gofal a Chymorth

Mae'r staff cymorth yn ymgynghori â'r bobl a'u teuluoedd cyn pob ymweliad â'r gwasanaeth, er mwyn gwirio unrhyw newidiadau a chadarnhau eu dewisiadau ar gyfer eu hymweliad. Caiff unrhyw newidiadau eu cofnodi, a chânt eu rhannu â'r staff cymorth. Mae'r rheolwr hefyd wrthi'n gwneud gwelliannau i sicrhau y caiff y newidiadau eu cyfleu yn y cynlluniau personol, a fydd yn cael eu hadolygu'n fwy rheolaidd. Efallai y bydd y bobl yn mynegi eu dewisiadau am yr hyn yr hoffent ei wneud yn ystod eu harhosiad, a gall hyn gynnwys teithiau allan i'r gymuned leol neu gael tecawê ar un diwrnod. Mae'r staff cymorth yn ymwybodol o arferion dyddiol y bobl ac yn sicrhau y gallant gynnal unrhyw arferion sy'n bwysig iddynt. Mae'r tîm rheoli yn ystyried y cydnawsedd ymysg y bobl ac yn ceisio sicrhau y bydd y bobl yn aros ar yr un pryd ag eraill maent yn eu hadnabod yn dda. Mae hyn yn golygu y gall y bobl fwynhau'r elfen gymdeithasol o'u harhosiad, gyda rhai o'r bobl yn mwynhau mynd ar deithiau allan â'i gilydd. Dywedodd un person wrthym ei fod yn hoffi cyfarfod pobl newydd pan fydd yn aros. Adroddodd straeon am y bobl mae wedi eu cyfarfod ac mae'n edrych ymlaen at gael eu gweld ar ei ymweliadau.

Mae'r staff cymorth yn ymwybodol o anghenion unigol y bobl. Mae cynlluniau cefnogi ymddygiad cadarnhaol a chlir ar waith ar gyfer y bobl. Mae gan y cynlluniau personol ddisgrifiad clir o sbardunau a all achosi gofid i'r bobl neu eu cynhyrfu, a sut i'w cefnogi os bydd yr angen yn codi. Mae'r staff cymorth yn glir am anghenion iechyd y bobl. Mae ganddynt systemau diogel er mwyn gwirio pa feddyginiaeth fydd yn mynd i mewn ac allan yn ystod pob arhosiad, a gwnaethom nodi fod y cofnodion rhoi meddyginiaeth yn glir ac wedi eu cwblhau'n llawn.

Mae'r bobl yn cael eu cadw'n ddiogel rhag y risg o haint. Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus ym mhob rhan ohono, a bod rota glanhau ar waith. Gwelsom gyflenwadau o gyfarpar diogelu personol ar gyfer y staff cymorth.

Yr Amgylchedd

Mae'r gwasanaeth yn hygyrch i bawb gyda digonedd o le â mynediad gwastad ar gyfer cadeiriau olwyn. Mae cyfarpar arbenigol ar gael, megis teclynnau codi. Gall y bobl ddisgwyl amgylchedd sy'n gartrefol ac yn groesawgar yn ystod eu harhosiad. Mae'r byngalo wedi'i addurno mewn modd cartrefol, heb fawr ddim arwyddion a hysbysiadau ynddo. Mae nifer o luniau'n cael eu harddangos o'r bobl yn mwynhau gwahanol weithgareddau yn ystod eu harhosiad. Roedd y bobl yn falch o gael dangos lluniau i ni ohonynt eu hunain gyda'u ffrindiau. Mae ystafell fwyta ar gael gyda bwrdd y gall y bobl fwynhau pryd o fwyd â'i gilydd os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae gardd ar gael i'r bobl hefyd, a darperir ardal yn yr awyr agored iddynt gael ei mwynhau ar ddiwrnodau cynnes.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau y caiff gwiriadau iechyd a diogelwch rheolaidd eu cwblhau. Gwelsom dystiolaeth wiriadau diogelwch trydanol a nwy cyfredol. Caiff gwiriadau diogelwch tân eu cwblhau, a chaiff senarios eu trafod mewn cyfarfodydd tîm. Mae hyn yn sicrhau bod y staff yn glir am sut i adael yr adeilad pe bai tân. Mae gan y bobl gynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng sy'n glir i'r staff cymorth eu dilyn. Mae'r adeilad wedi cael ei wella ers ein harolygiad diwethaf er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio'n llawn ag iechyd a diogelwch. Cafodd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth ei gyhoeddi ar hwn yn ein harolygiad diwethaf, sydd bellach wedi cael ei fodloni.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r tîm rheoli yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i'w oruchwylio ac er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei redeg yn ddidrafferth. Maent wedi cyflwyno ymweliad wythnosol â'r gwasanaeth i'w archwilio. Mae'r dirprwy reolwr yn ymweld â'r safle yn wythnosol er mwyn gwirio fod y cofnodion meddyginiaeth yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch. Mae hefyd yn adolygu sampl o ffeiliau'r bobl. Dywedodd y staff cymorth y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym fod eu perthynas â'r tîm rheoli yn *"very good"* a *"they are always at the end of a phone."* Cwblheir adolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis. Mae'r rhain yn darparu adolygiad trylwyr ac onest o'r hyn mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda, ac yn nodi lle y gellid gwneud gwelliannau pellach. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd, gan ganolbwyntio ar faes penodol i'w adolygu yn ystod pob ymweliad. Roedd y mater hwn yn faes i'w wella yn ystod yr arolygiad diwethaf, sydd bellach wedi cael ei gyflawni.

Caiff y bobl eu cefnogi gan staff sydd wedi cael y gwiriadau recriwtio priodol a'u sefydlu cyn dechrau yn eu rolau. Gwelsom dystiolaeth o eirdaon a gwiriadau gan y gwasanaeth datgelu a gwahardd ar gyfer y staff cymorth. Dywedodd yr aelodau o staff mwyaf newydd wrthym eu bod wedi cael cyfnod sefydlu trylwyr, gyda digonedd o amser i gysgodi ac ymglyfarwyddo eu hunain â'r prosiectau a'r bobl. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym ei fod wedi cael ei annog i gymryd ei amser yn ystod y cyfnod sefydlu, a'i bod hi'n *"nice to feel part of a team."* Er bod y staff cymorth yn dweud wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, nid oedd y cofnodion goruchwyliaeth ffurfiol yn nodi bod sesiynau goruchwylio yn cael eu cynnal bob tri mis, fel sy'n unol â'r rheoliadau. Roedd bylchau i'w cael yng nghofnodion hyfforddiant gorfodol ac arbenigol y staff cymorth. Mae gan y rheolwr gynllun hyfforddiant i ymdrin â hyn. Mae sesiynau goruchwylio a hyfforddiant i'r staff cymorth yn faes i'w wella. Rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth gymryd camau a chaiff y mater ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf..

Mae'r darparwr gwasanaeth yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a bod y bobl yn gallu cael gafael ar y pethau sy'n gwneud eu harhosiad yn un cyfforddus. Mae wedi buddsoddi mewn cerbyd sydd ar gael i fynd â'r bobl allan, gan eu galluogi i gymryd rhan yn y gweithgareddau maent yn eu mwynhau yn y gymuned leol.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
57	Nid yw darparwyr y gwasanaeth yn sicrhau bod unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch unigolion yn cael eu nodi a'u lleihau i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol.	Cyflawnwyd

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
36	Nid yw'r staff yn cael sesiynau goruchwyllo bob tri mis, ac nid yw pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant gorfodol ac arbenigol sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion y bobl. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd, a bod yr hyfforddiant gorfodol ac arbenigol yn cael eu hadolygu ar amser.	Newydd
73	Nid yw'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth o leiaf unwaith bob 3 mis.	Cyflawnwyd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 10/04/2024